

Teitl y Cyfarfod: **Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

Dyddiad y cyfarfod: 8 Mawrth 2022 **Lleoliad:** MS Teams

Amser y cyfarfod: 10.00 – 12.30

Yn bresennol: **Llywodraeth Cymru:** Leasa Fielding (Cadeirydd), Tom Warren, Becky Phillips,
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: Michaela Scrivin (ysgrifenyddiaeth)
Arall: Anna Holmes (Amgueddfa Cymru), Ben Rowson (AC), Beverley Lewis (BBNPA), Bradley Welch (BIS), Chloe Powell-Jennings (CNC), Chloe White (Dŵr Cymru), David Jermyn (BBNPA), Dawn Thomas (NWWT), Debbie Murphy (CEFAS), Jennie Jones (CNC), Jess Minett (WaREN), Matt Tebbitt (prosiect Pwyth mewn Pryd), Olaf Booy (APHA), Phil Stone (Canŵ Cymru), Sean Hathaway (Cyngor Sir Abertawe), Theresa Kudelska (CNC), Tomos Jones (WaREN)

Ymddiheuriadau: Adam Rowe, Alison Smith (LIC), Joanne Cable (Prifysgol Caerdydd), Judith Oakley (Cyngor Abertawe), Louis Macdonald-Ames (Gwy a Brynbuga), Niall Moore (APHA), Phil Horton (RYA), Robert Smith (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

[Diweddariadau gan Bartneriaid](#)

[Diweddariad WaREN](#)

[Adolygiad cynhwysfawr o rywogaethau o bryder arbennig](#)

[Unrhyw fater arall](#)

TROSOLWNG O GAMAU GWEITHREDU

Cam gweithredu	Dan arweiniad	Cyfnod	Diweddariad
Diweddariadau gan bartneriaid 1. Unrhyw ddiweddariadau pellach gan bartneriaid i Michaela erbyn diwedd mis Mawrth 2. Phil Stone i gylchlythyru fersiwn pdf o orsafoedd Edrych Golchi Sychu.	Pawb i e-bostio Michaela Phil Stone		
Diweddariad WaREN 3. Tomos i rannu strategaeth Bioddiogelwch ar gyfer sylwadau unwaith mae'r fersiwn ddrafft yn barod.	Tomos Jones		



Cam gweithredu	Dan arweiniad	Cyfnod	Diweddariad
Adolygiad cynhwysfawr o rywogaethau o bryder arbennig 4. Dim camau'n codi.			
Unrhyw fater arall / Camau nesaf 5. Cyfarfod Grŵp INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i'w drefnu ar gyfer 9 Tachwedd 2022	Michaela Scrivin		Wedi gwneud

PRIF BWYNTIAU A CHAMAU GWEITHREDU

Croesawodd Leasa Fielding bawb i'r cyfarfod gan nodi ymddiheuriadau. Cafodd rhestr camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf ei hadolygu:

Rhestr camau gweithredu o gyfarfod Hydref 2021

1. Michaela i gysylltu â Kate Rodgers ar gyfer diweddariad ar fathodyn INNS, rhannu gwybodaeth gyda'r grŵp. **Wedi gwneud**
2. Aelodau'r grŵp i gysylltu â'r Tomos Jones os hoffen nhw gyfrannu at wefan prosiect WaREN a'r strategaeth bioddiogelwch ac ati. **Wedi gwneud**
3. E-bostio unrhyw ddiweddariadau partner pellach at Michaela erbyn diwedd mis Tachwedd. **Wedi gwneud**
4. Bydd cyfarfod Grŵp INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei drefnu ar gyfer mis Mawrth 2022. **Wedi gwneud**

Diweddariadau gan Bartneriaid

Diweddariadau ysgrifenedig a rannwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pwyntiau ychwanegol yn cynnwys:

- **Amgueddfa Cymru.** Rhywogaethau goresgynnol morol a daearol yn cael sylw yn arddangosfa 'Ar eich stepen drws' gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn Nhyddewi ddiwedd y mis. Cregyn gleision lledresog wedi ymddangos yn Iwerddon. Cynhelir gweithdy INNS morol ym mis Hydref ac mae pecyn INNS morol yn cael ei greu i'w ddefnyddio yng Nghymru – mae'n cael ei gadw yn yr amgueddfa, ac ar gael i'w ddefnyddio'n rhad ac am ddim (heblaw costau cludo) o ddiwedd yr haf.
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.** Cam 3 rhaglen rheoli clymog Japan ar afon Wysg i'w wneud yn 2022 - ategu gwaith blaenorol. Bwriad i gynnwys yr holl ddalgylch yn y rhaglen erbyn 2024. Hefyd, gweithio ar afon Tawe gan barhau â gwaith ar Jac y Neidiwr. 4 grŵp gwirfoddol hunangynhaliol ar waith. Gweithio gyda CNC yn Llyn Syfaddan ar Jac y Neidiwr, maglu mincod, ac ymchwilio i fioddiogelwch / cyfleusterau golchi. Hefyd, gweithio i ddechrau mynd i'r afael â phidyn-y-gog a chimwch afon arwyddol.
- **Canŵ Cymru.** Hefyd yn gweithio ar ariannu gorsafoedd golchi, ac arwyddion penodol i bob adran o ardal ddyfrol fel rhan o'r ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu. Phil i rannu copiâu pdf. Cynnydd o 80% mewn aelodaeth yn ddiweddar, wedi hysbysu'r holl aelodau am INNS. Sioe deithiol yr aelodau i drafod INNS.
- **Dŵr Cymru.** Gellir rhannu strategaeth INNS sy'n cael ei hailwampio am y 3-5 mlynedd nesaf, unwaith y bydd fersiwn derfynol ar gael.



- **GBNNS**. Staff i gynyddu o 4 i 8. Gweithdy Grŵp Gweithredu Lleol – cydlynedd ar waith yn fuan gyda'r nod o helpu gyda gwaith cydlynu rhanbarthol a mynediad at gyllid. Edrych ar rywogaethau ychwanegol i'w rhestru. Ail-lansio'r wefan fis nesaf. Siarad â chwmnïau dŵr am waith pellach gyda rhywogaethau goresgynnol.
- **Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol (LERCs)**. Wedi cael sgysiau gyda thîm WaREN am barhad a chronfeydd data.
- **CNC**. Wedi nodi safleoedd â blaenoriaeth ar gyfer CABI (Jac y Neidiwr a chorchwyn). Bydd hadau a gesglir o 4-5 safle (dan drwydded) yn cael eu lledaenu gyda 'rust fungus' (Jac y Neidiwr) a gwiddon (corchwyn) i weld pa mor effeithiol y dylai'r driniaeth fod. Dosbarthu dolen i wefan bioddiogelwch pan fydd ar waith.
- **NWWT**. Cyllid o 12 mis gan y llywodraeth ar gyfer arolwg pellach Shoresearch. Swyddog Prosiect yn gweithio ar cotoneaster.
- **Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau**: Gobeithio cynnal digwyddiad hyfforddi INNS arall ym mis Ebrill ar gyfer cychod hamdden, ochr yn ochr â digwyddiad RYA. Cyllid prosiect i orffen ym mis Awst.
- **Pwyth mewn Pryd**. Cyllid yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Pecyn cymorth wedi'i anfon ar gyfer ymgynghori â'r grŵp rhanddeiliaid, yn barod i'w gyhoeddi ym mis Mawrth/Ebrill. Prosiect wedi'i drosglwyddo i'r Parc Cenedlaethol, ceisiadau am ragor o arian ond ni chadarnhawyd unrhyw grantiau hyd yn hyn. Matt i aros i weithio i'r Parc Cenedlaethol yn barhaol a bydd yn ymwneud ag wythnos INNS ac ati.
- **Cyngor Abertawe**. Derbyniwyd cymorth grant i dynnu rhododendron o safle PAWS ac ailblannu.
- **Llywodraeth Cymru**. Cadarnhad mai taflenni digidol yn unig yw gwybodaeth INNS ar hyn o bryd

Mae CABI yn ail-wneud asesiad o effaith economaidd INNS o 2010 felly mae e-bost wedi'i anfon at gyfranwyr blaenorol, ond os oes gan unrhyw un unrhyw gyfraniadau, e-bostiwr CABI yn uniongyrchol (cylchredwyd yr e-bost gan Michaela).

Camau gweithredu: Os na lwyddoch i anfon diweddariad partner at Michaela cyn y cyfarfod, mae croeso i chi wneud hyn cyn diwedd mis Mawrth er mwyn ei gynnwys gyda'r cofnodion pan gaiff ei ddsbarthu. Phil Stone i gylchlythyru fersiwn pdf o orsafoedd Edrych Golchi Sychu.

Prosiect WaREN: Diweddariad Cam 2

Hanner ffordd drwy'r prosiect ar hyn o bryd. Cafwyd diweddariadau ar rai o'r 23 amcan gan Tomos Jones:

- Pecyn adnoddau ar-lein – prosiect ailddatblygu 'INNS Mapper' i fynd ymlaen ym mis Ebrill. Darparu cronfa ddata o achosion a phecyn adrodd camau rheoli a gweithredu.
- Strategaeth bioddiogelwch – wrthi'n datblygu fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Bioddiogelwch ac Atal. Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioddiogelwch, a gwella'r niferoedd sy'n manteisio ar strategaethau bioddiogelwch
- Astudiaethau dichonoldeb – tair astudiaeth i'w cwblhau eleni yn edrych ar ddulliau arloesol a chanolbwyntio ar rywogaethau â blaenoriaeth
- Codi ymwybyddiaeth – wythnos rhywogaethau goresgynnol, ac ymgyrch genedlaethol WaREN i'w ddilyn: "Ymledwyr Ecosystem". Y gynulleidfa darged yw garddwyr, defnyddwyr dŵr hamdden a pherchnogion anifeiliaid anwes egsotig.



Pwyntiau trafod

- Logo: yn ôl yr adborth, roedd hi'n well gan bobl y rhaniad lloerweddol gyda bandio coch
- Ymgyrch 'Ymledwyr Ecosystem' i'w lansio ar gefn wythnos rhywogaethau goresgynol sy'n gorffen yn yr Eisteddfod Genedlaethol
- Croesawyd adborth am y strategaeth bioddiogelwch unwaith y bydd Tomos yn ei rhannu.
- Bydd pŵl piniwn YouGov yn casglu data sylfaenol am yr ymgyrch gan 1000 o ymatebwyr ledled Cymru, am wybodaeth am INNS.

Camau gweithredu: Tomos i rannu strategaeth Bioddiogelwch ar gyfer sylwadau unwaith mae'r fersiwn ddrafft yn barod.

Prosiect WaREN: Pecyn Cymorth Rhywogaethau Goresgynol

Soniodd Jess Minett am gefnogi Grwpiau Gweithredu Lleol drwy becyn cymorth INNS, sy'n cynnwys canllawiau adnabod cynhwysfawr, gwybodaeth am rywogaethau â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, canllawiau rheoli arferion gorau, ac adrannau cynllunio prosiectau a bioddiogelwch. Mae hefyd yn rhoi cynghorion ar godi ymwybyddiaeth a chyfathrebu (cwestiynau cyffredin ayyb)

Bydd yn cael ei gynnal ar wefan GBNS ac ar gael fel pdf erbyn yr Wythnos Rhywogaethau Goresgynol.

Pwyntiau trafod

- Olaf i sicrhau bod y cydlynnydd rhanbarthol newydd yn cysylltu â Jess unwaith y bydd yn y swydd.
- Rhywogaethau morol wedi'u cynnwys mewn canllawiau adnabod, ond mae'r canllaw yn canolbwyntio'n bennaf ar rywogaethau dŵr croyw a daearol
- Gwirio bod logos diweddaraf Edrych, Golchi, Sychu yn cael eu defnyddio.
- Wedi'i lansio ar wefannau NWWT a GBNS, mae angen sicrhau y bydd yn parhau unwaith y daw'r prosiect i ben. Bydd PDF ar gael i'w rannu/lawrlwytho

Adolygiad cynhwysfawr o rywogaethau o bryder arbennig

Gofyniad dan ddeddfwriaeth yr UE i gynnal yr adolygiad, a gadwyd dan ddeddfwriaeth Prydain. Cynghori'r Gweinidog a oes angen parhau i restru 66 o rywogaethau o hyd. Gall rhywogaethau o bryder Ewropeaidd na allant sefydlu ym Mhrydain gael eu tynnu o'r rhestr. Rhannu e-bost ar 2 Chwefror gyda manylion – angen sylwadau erbyn 14 Mawrth.

- Angen ystyriaeth bellach i 23 o rywogaethau.
- Opsiynau senarios hinsawdd 2050 a 2100 – pe bai 2050 yn cael ei ddefnyddio, byddai 10 rhywogaeth yn dod oddi ar y rhestr. Gellir monitro rhywogaethau o hyd os cânt eu tynnu, a'u hail-restru os yw tystiolaeth yn newid
- Cyflwynir argymhelliad terfynol (sylwadau rhanddeiliad ôl) yng nghyfarfod Pwyllgor Prydain ar 13 Ebrill



Pwyntiau trafod

- Amserlen ar gyfer ychwanegiadau at y rhestr? Angen newid y ddeddfwriaeth mwy na thebyg - proses a gymeradwyir gan Bwyllgor Prydain ond bydd angen amserlen hir gan gynnwys asesiadau risg cynhwysfawr ac ati. Gellir anfon awgrymiadau at Olaf

Unrhyw fater arall

- Rhaglen Iechyd Planhigion LIC 'Safleoedd Sentinel' – monitro un parc neu ardd ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol ar gyfer plâu neu glefydau ddwywaith y flwyddyn. Wedi'i heffeithio'n ddrwg gan gyfyngiadau Covid, mae gwybodaeth Be Plantwise wedi'i chynnwys.
- Wedi creu baner e-bost ar gyfer wythnos Rhywogaethau Goresgynol fel dull hyrwyddo
- Bydd y cyfarfod nesaf ar 9 Tachwedd 2022.